01.10.2020

Heledd Williams
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
01286 674622

**Erthygl i'r Wasg** **Press Release**

# Y gorffennol yn dod yn fyw drwy hen ffilmiau

"Mae hen lun yn medru dweud llawer, ond mae hen ffilm yn medru dod â'r gorffennol yn fyw" meddai'r Prifardd ac Archdderwydd Myrddin ap Dafydd.

Bob wythnos ar **Ffilmiau Ddoe**, mae criw hwyliog o gyflwynwyr a gwestai neu gyfwelai yn gwylio detholiad o'r ffilmiau sy'n rhan o gasgliad Archif Sgrin a Sain Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Detholiad o ffilmiau sy'n cofnodi digwyddiadau cymdeithasol, ffilmiau personol am deuluoedd, a thystiolaeth weledol o sut mae Cymru wedi newid dros y blynyddoedd. Yr wythnos hon, Myrddin ap Dafydd fydd yn cael y fraint o dyrchu yn y casgliad rhyfeddol hwn, a hynny yng nghwmni ei westeion Peredur Lynch a Beryl Vaughan.

Bydd Peredur Lynch, un o draethwyr huawdl y Babell Lên, yn cymryd golwg ar ffilmiau o Eisteddfodau Cenedlaethol ar hyd y blynyddoedd, gan gynnwys clip o'r Brifwyl yn Aberystwyth yn 1916, ffilm ryfeddol o Eisteddfod Machynlleth yn 1937, cofnod yr artist Charles Tunnicliffe o seremoni cyhoeddi Pwllheli 1954, a chlipiau o enwogion ar y Maes yn Y Drenewydd yn 1965.

"Da'ch chi'n gweld pobl yn rhythu ar gamera sy'n troi o'u blaenau, ac weithiau dan ni'n teimlo nad ydi pawb yn siŵr iawn sut mae ymddwyn o flaen y lens" sylwa Myrddin, wrth wylio clip o Eisteddfod Y Drenewydd 1965.

Bywyd cefn gwlad fydd yn mynd â bryd Beryl Vaughan, a chawn ymweld â Ffair Dalis 1914, sef ffair geffylau enwog Llanbedr Pont Steffan, diwrnod cneifio yn Y Foel, golygfeydd ardal Penderyn a Bannau Brycheiniog, a Choleg Hyfforddi Felinfach.

"Mae rhyw hud a hiraeth mewn gweld ein gorffennol yn dod yn fyw o flaen ein llygaid" meddai Myrddin. "Mae'n rhoi cyfle i ni fynd yn ôl yno, wel am sbel fach beth bynnag. Diolch bod ganddon ni drysorfa o archif yma yng Nghymru, a rheiny'n cael eu gwarchod a'u rhannu."

**Ffilmiau Ddoe**
**Bob nos Sul, 9.00, S4C**
**Isdeitlau Saesneg**
**Ar alw: S4C Clic, iPlayer a llwyfannau eraill**
**Cyd-gynhyrchiad Unigryw a Cwmni Da ar gyfer S4C**

01.10.2020

Heledd Williams
Cyswllt ContactMae
01286 674622

**Erthygl i'r Wasg** **Press Release**

# Bringing the past to life through film

"An old picture can convey a lot, but an old film can bring the past to life," says the Bard and Archdruid Myrddin ap Dafydd.

Each week on **Ffilmiau Ddoe**, a presenter and two guests watch a selection of films that have been dug up from the National Library of Wales' Screen and Sound Archive collection. A selection of films documenting social events, personal family films, and visual evidence of how Wales has changed over the years. This week, Myrddin ap Dafydd will have the privilege of digging into this remarkable collection, accompanied by his guests Peredur Lynch and Beryl Vaughan.

Peredur Lynch, one of the eloquent poets of the National Eisteddfod's Pabell Lên (literary tent) will take a look at films from the National Eisteddfod over the years, which include clips from the 1916 Eisteddfod at Aberystwyth, a fascinating film from Machynlleth Eisteddfod in 1937, artist Charles Tunnicliffe's account of the 1954 Eisteddfod in Pwllheli's proclamation ceremony, and clips of well-known faces on the Eisteddfod field in Newtown in 1965.

"You see people staring into the camera in front of them, and sometimes we feel that not everyone is quite sure how to behave in front of the lens" observes Myrddin, as he watches a clip of the Eisteddfod in Newtown in 1965.

Beryl Vaughan will focus on the countryside, and we will visit the 1914 Dalis Fair, Lampeter's famous horse fair, shearing day at Y Foel, the spectacular scenery of the Penderyn and Brecon Beacons, and Felinfach Training College.

"There is some magic and nostalgia in seeing our past come to life before our eyes," says Myrddin. "It gives us a chance to go back to that time, well for a little moment anyway. We're so lucky we have a treasure trove of archives here in Wales, which are protected and shared."

**Ffilmiau Ddoe**
**Every Sunday, 9.00, S4C**
**English subtitles**
**On demand: S4C Clic, iPlayer and other platforms.**
**A Cwmni Da production for S4C**